

Mae gwasanaethau gofal iechyd i blant a phobl ifanc yn newid



Mae gwasanaethau'n newid fel ein bod yn medru parhau i ddarparu gofal i blant a phobl ifanc sy'n ddiogel, o safon uchel ac sy'n bodloni'r safonau meddygol disgwylidig yn y GIG. Bydd y newidiadau'n digwydd o ddydd Llun 20 Hydref 2014 yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, ond ni fydd newid i wasanaethau ysbyty yng Ngheredigion.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y ddogfen hon os ydych chi'n berson ifanc neu'n gyfrifol am blentyn o dan 18 oed – p'un ai ydych yn rhiant, tad-cu/mam-gu, gwarcheidwad neu'n ddarparwr gofal – yn enwedig os ydych yn byw yn Sir Benfro neu'n ymweld â'r sir.

Am y wybodaeth a'r newyddion diweddaraf a mwy, ewch i'n gwefan:

www.bihyweldda.wales.nhs.uk/gwasanaethaueichdyfodol



Mae fformatau eraill a phrint bras ar gael ar gais: 0300 0200 159



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board



Gwasanaethau Eich Dyfodol
Your Future Services

Bydd mwyafrif y gwasanaethau ar gyfer plant sâl yn Sir Benfro yn parhau i gael eu darparu yn Sir Benfro.

Yn ein **Huned Asesu Pediatrig** (PAU) am 12 awr y dydd (10am-10pm), saith diwrnod yr wythnos, yn y ward plant bresennol yn Ysbyty Llwynhelyg, Hwlfordd, bydd:

- ✓ gofal gan ymgynghorwyr a meddygon pediatrig, nyrsys plant a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill
- ✓ gwelyau ar gyfer asesiadau, triniaethau dydd ac archwiliadau

Gellir trin llawer o blant yn y modd hwn ac ni fydd angen iddynt aros yn yr ysbyty dros nos. Mae hyn yn cynnwys plant â:

- ✓ phoen sydd wedi dechrau'n sydyn
- ✓ afiechyd
- ✓ tymheredd
- ✓ haint

Neu sydd angen:

- ✓ gorchudd
- ✓ prawf gwaed
- ✓ pelydr-x
- ✓ sgan

Ni allwn ddarparu **gofal pediatrig mewnol na thros nos** yn Ysbyty Llwynhelyg. Bydd y plant sydd angen y gofal hwn yn cael eu trosglwyddo i'r **gwasanaeth pediatrig mewnol 24 awr** yn Ysbyty Glangwili. Bydd rhieni/gofalwyr yn medru aros gyda'u plant ddydd a nos fel nawr.

Ar gyfer plant sy'n ddifrifol wael, bydd **uned dibyniaeth fawr bediatrig** bwrpasol yn Ysbyty Glangwili. Yma byddwn yn gofalu am blant â chyflyrau megis:

- ✓ problemau mawr wrth anadlu
- ✓ heintiau difrifol
- ✓ ketoacidosis diabetig
- ✓ anafiadau neu afiechydon difrifol sy'n gofyn am fonitro agos a thriniaeth arbenigol

Byddwch yn medru defnyddio'r gwasanaethau canlynol yn Sir Benfro fel yr ydych yn gwneud nawr (gall ein cyfarwyddyd Dewis Doeth eich helpu i benderfynu pa wasanaeth fydd yn diwallu anghenion eich plentyn orau):

- ✓ hunan-ofal yn y cartref gyda chyingor gan Galw Iechyd Cymru (Ffôn: 0845 46 47)
- ✓ eich Meddyg Teulu, fferyllfa neu ddeintydd lleol
- ✓ clinigau claf allanol pediatrig yn Ysbyty Llwynhelyg a lleoliadau cymunedol eraill, gan gynnwys ymweliadau dilynol llawfeddygol, rheoli afiechydon cronig, datblygiad plant a chlinigau arbenigol i blant
- ✓ nyrsys plant neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n gweithio mewn meddygfeydd ac ysgolion ac yng nghartrefi'r plant eu hunain
- ✓ gofal mân anafiadau pediatrig yn Uned Frys Ysbyty Llwynhelyg 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos

I gael mwy o wybodaeth am ein cyfarwyddyd Dewis Doeth, gan gynnwys manylion cyswllt defnyddiol, ewch i'n gwefan www.bihyweldda.cymru.nhs.uk/dewisdoeth



Beth i'w wneud os bydd fy mhlentyn yn sâl iawn?

Mewn argyfwng, os bydd eich plentyn yn sâl iawn, dylech ffonio **999** a gofyn am ambiwlans yn hytrach na mynd yn syth i Ganolfan Gofal Brys Llwynhelyg. Bydd y parafeddygon yn gwybod ble fydd orau i gymryd eich plentyn er mwyn iddo gael y driniaeth sydd ei hangen cyn gynted â phosib.

Bydd unrhyw blentyn sy'n dod i'r Uned Frys neu'r Uned Asesu Peditrig yn Ysbyty Llwynhelyg, ond sydd angen gofal claf preswyl neu dros nos, yn cael ei drosglwyddo i Ysbyty Glangwili neu'r ysbyty arbenigol agosaf fydd yn diwallu ei anghenion orau. Bydd meddygon peditrig a nyrsys plant yn y PAU yn Ysbyty Llwynhelyg yn ddyddiol rhwng 10am a 10pm.

Bydd **cerbyd ambiwlans pwrpasol** ar gael i gymryd plant o Ysbyty Llwynhelyg i Ysbyty Glangwili pan fo angen a byddwch yn medru aros gyda'ch plentyn. Mae parafeddygon wedi'u hyfforddi i ddelio â sefyllfaoedd brys wrth drosglwyddo, fel y maent eisoes yn gwneud ar draws Cymru. Mae'r ambiwlans pwrpasol hwn wedi bod yn gweithredu ers dechrau mis Awst ac y mae'n gerbyd ychwanegol i'r ambiwlansys sydd eisoes ar waith yn Sir Benfro.

Mwy o wybodaeth

Os ydych yn berson ifanc, neu os oes gennych blentyn â chyflwr hir-dymor neu gymhleth, bydd eich nyrs cymunedol neu ddarparwr gofal iechyd yn cyfathrebu'n uniongyrchol â chi. Os nad felly, neu os oes gennych unrhyw bryderon penodol, cysylltwch â nhw am fwy o wybodaeth.

Bydd ein fersiwn arbennig o'r daflen hon, a gafodd ei chreu ar gyfer pobl ifanc, ar gael ar ein gwefan

www.bihyweldda.wales.nhs.uk/gwasanaethaueichdyfodol